
Rheoli arian

Addysg ariannol mewn
ysgolion cynradd ac
uwchradd yng Nghymru

Gorffennaf 2017



Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ▲ ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ▲ ysgolion cynradd
- ▲ ysgolion uwchradd
- ▲ ysgolion arbennig
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion
- ▲ ysgolion pob oed
- ▲ ysgolion annibynnol
- ▲ addysg bellach
- ▲ colegau arbenigol annibynnol
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned
- ▲ gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon
- ▲ Cymraeg i oedolion
- ▲ dysgu yn y gwaith
- ▲ dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad.

Cyflwyniad	1
Cefndir	1
Prif ganfyddiadau	3
Argymhellion	5
Profiadau dysgu	6
Arweinyddiaeth	8
Arweinyddiaeth	8
Gwella ansawdd	9
Gweithio mewn partneriaeth	11
Busnesau lleol, sefydliadau ariannol, elusennau ac undebau credyd	11
Rhieni	12
Rheoli adnoddau	13
Datblygiad staff	13
Adnoddau	14
Atodiad: Sail y dystiolaeth	15
Geirfa	16
Cyfeiriadau	17

Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad hwn i ymateb i lythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2016-2017. Mae'r adroddiad wedi ei fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a chyrff llywodraethol mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

Mae'r adroddiad yn arfarnu ansawdd a darpariaeth addysg ariannol mewn ysgolion a'r modd y mae addysgu a dysgu yn y maes hwn wedi datblygu ers adroddiad blaenorol Estyn a gyhoeddwyd yn 2011 (Estyn, 2011). Mae'n ystyried pa mor dda y mae newidiadau a diwygiadau diweddar i orchmynion y cwricwlwm, yn enwedig y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh) a'r rhaglen astudio mathemateg newydd, wedi effeithio ar ansawdd addysg ariannol.

Mae'r arolwg yn defnyddio tystiolaeth o arolygiadau ac o holiaduron ar-lein a anfonwyd at sampl gynrychioliadol o benaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd a chynrychiolwyr consortia rhanbarthol. Bu arolygwyr yn cyfweld â sampl o benaethiaid hefyd.

Cefndir

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ddiwygiedig ym Mawrth 2016 (Llywodraeth Cymru, 2016a). Roedd hon yn adeiladu ar y strategaeth flaenorol yn 2009 yn amlinellu gweledigaeth a chynllun Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cynhwysiant ariannol. Mae'n cynnwys ymrwymiad i sicrhau bod pob oedolyn a phlentyn yn cael yr addysg ariannol sydd ei hangen arnynt. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Cyflenwi Cynhwysiant Ariannol yn Rhagfyr 2016 (Llywodraeth Cymru, 2016b). Amlinellodd y cynllun y camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'i gweledigaeth ar gyfer cynhwysiant ariannol yng Nghymru.

Yn 2011, cyhoeddodd Uned Addysg Ariannol Cymru (UAAC) 'Addysg ariannol i ddysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru: Canllawiau i ysgolion a cholegau' i ddarparu cymorth a chynngor i ysgolion (Llywodraeth Cymru, 2011a). Nod y ddogfen hon oedd sicrhau bod pob disgybl yn datblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y medrau, y cymhwysedd a'r cyfrifoldeb i fod yn alluog yn ariannol. Gweithiodd yr uned gydag ysgolion ym mron pob awdurdod lleol i gyflwyno hyfforddiant i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ariannol. Yn dilyn adolygiad annibynnol gan ARAD (Llywodraeth Cymru, 2011b), cytunodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau i barhau â'r rhaglen gymorth hon ar gyfer 2012-2013.

Yn yr un flwyddyn, cyhoeddodd Estyn 'Materion ariannol: darpariaeth addysg ariannol i bobl ifanc rhwng 7 ac 19 mlwydd oed mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru' (Estyn, 2011). Canfu'r adroddiad hwn nad oedd y mwyafrif o ysgolion yn cynllunio'n ddigon da i ddisgyblion atgyfnerthu a chymhwyso'u medrau ariannol yn gynyddol mewn cyd-destunau gwahanol ar draws y cwricwlwm.

Yn ei adolygiad o'r cwricwlwm ac asesu 'Dyfodol Llwyddiannus' (2015), argymhellodd yr Athro Graham Donaldson sefydlu cwricwlwm â chwe maes dysgu a phrofiad yn cynnwys mathemateg a rhifedd. Mae'r adroddiad yn amlinellu pwysigrwydd datblygu gwybodaeth a medrau disgyblion i reoli cyllid personol.

Mae'n cyflwyno pedwar diben ar gyfer y cwricwlwm i helpu pob plentyn ac unigolyn ifanc i fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barid i gymryd rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- yn ddinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd
- yn unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas

Mae addysg ariannol yn cyfrannu'n dda at y pedwar diben hwn, yn enwedig datblygu plant a phobl ifanc fel unigolion iach a hyderus.

Cynhwysir cyfeiriadau at ddatblygu medrau'n ymwneud â rheoli arian ac addysg ariannol yn y dogfennau canlynol:

- Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (Llywodraeth Cymru, 2015a)
- Rhaglen Astudio ar gyfer Mathemateg, Cyfnodau Allweddol 2–4 (Llywodraeth Cymru, 2015b)
- TGAU Mathemateg CBAC (Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, 2015a)
- TGAU Mathemateg CBAC – Rhifedd (Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, 2015b)
- Bagloriaeth Cymru (Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, 2015c)
- Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd i ddysgwyr pump i 14 oed (Llywodraeth Cymru, 2014)
- Y Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith i ddysgwyr 11 i 19 oed (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008a)
- Y Fframwaith Addysg Personol a Chymdeithasol i ddysgwyr saith i 19 oed (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008b)

Prif ganfyddiadau

- 1 Mae cyflwyno'r elfen 'rheoli arian' yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh; Llywodraeth Cymru, 2014) a rhaglenni astudio diwygiedig ar gyfer mathemateg (Llywodraeth Cymru, 2015b) wedi helpu'r rhan fwyaf o athrawon i nodi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau ariannol mewn gwersi mathemateg a phynciau eraill. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion cynradd a'r mwyafrif o ysgolion uwchradd, nid yw'r cynllunio yn galluogi disgyblion i ddatblygu'u dealltwriaeth a'u medrau ariannol fel arfer wrth iddynt symud drwy'r ysgol.
- 2 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynllunio'r agwedd hon ar y cwricwlwm o fewn eu darpariaeth gyffredinol ar gyfer rhifedd. Mae hyn yn golygu nad yw ysgolion yn cyflwyno addysg ariannol trwy wersi addysg bersonol a chymdeithasol yn gyfan gwbl mwyach. Yn yr arfer orau, mae ysgolion yn datblygu medrau ariannol disgyblion yn gynyddol drwy weithgareddau rhifedd, a'u dealltwriaeth o gyfrifoldeb ariannol trwy gyd-destunau addysg bersonol a chymdeithasol ystyrlon. Nid yw lleiafrif o ysgolion cynradd a mwyafrif o ysgolion uwchradd yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u galluoedd ariannol mewn gweithgareddau heriol a pherthnasol ar draws ystod o feysydd a chyd-destunau'r cwricwlwm.
- 3 Yn y mwyafrif o ysgolion, mae uwch arweinydd neu arweinydd canol yn gyfrifol am ddatblygu, cydlynu ac arfarnu rhifedd. Er bod ysgolion yn monitro ac yn arfarnu safonau a darpariaeth gyffredinol mewn rhifedd, ychydig iawn ohonynt sy'n canolbwyntio'n benodol ar addysg ariannol.
- 4 Mae uwch arweinwyr yn ystyried bod gwerth i addysg ariannol fel elfen bwysig o ddatblygu medrau bywyd disgyblion, ond dim ond ychydig ohonynt sy'n ymwybodol o Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru a'r ddogfen arweiniad, 'Addysg ariannol i ddysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru (2011).
- 5 Mae ychydig o ysgolion, mewn ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd fel arfer, yn datblygu darpariaeth addysg ariannol fel blaenoriaeth o ran gwella'r ysgol. At ei gilydd, mae llawer o ysgolion yn wynebu heriau i gyflawni a chynnal gwelliannau wrth gyflwyno addysg ariannol. Mae hyn yn aml oherwydd y galw cynyddol am amser cwricwlwm a blaenoriaethau cystadleuol i wella'r ysgol.
- 6 Mae lleiafrif o ysgolion yn parhau i elwa ar bartneriaethau defnyddiol gyda banciau, cymdeithasau adeiladu, busnesau lleol ac undebau credyd. Yn aml, mae'r partneriaethau hyn yn helpu disgyblion ddatblygu'u dealltwriaeth ariannol ac yn eu cynorthwyo gyda phrosiectau codi arian a phrosiectau menter. Er gwaethaf buddion gweithio gydag arbenigwyr ariannol, mae llawer o ysgolion yn ei chael hi'n anodd cynnal y partneriaethau hyn. Mae gallu sefydliadau unigol i ddarparu cymorth i'w hysgolion lleol o ran datblygu addysg ariannol disgyblion yn amrywio gryn dipyn ar hyd a lled Cymru. Nid yw pob ysgol yn ymwybodol o'r rhaglenni addysg ariannol y gall eu hundeb credyd, banc neu gymdeithas adeiladu leol eu darparu. O ganlyniad, mae ysgolion a sefydliadau ariannol lleol yn colli cyfleoedd gwerthfawr i wella profiadau dysgu a medrau ariannol disgyblion a'u cymunedau.

- 7 Darperir trefniadau defnyddiol iawn ac arloesol gan ychydig o ysgolion, yn enwedig ysgolion cynradd, i gynnwys rhieni a disgyblion mewn gweithgareddau addysg ariannol. Mae'r rhain yn darparu gwasanaeth gwerthfawr, yn enwedig mewn cymunedau lle mae rhieni'n gofyn am gymorth gan ysgolion i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ariannol nhw eu hunain a'u plentyn.
- 8 Nid yw hyfforddiant penodol i athrawon mewn addysg ariannol ar gael mor eang i ysgolion ag ydoedd yn 2010. Bellach, mae'r agwedd hon ar y cwricwlwm yn fwy tebygol o fod yn rhan o hyfforddiant rhifedd generig sy'n cael ei ddarparu gan gonsortia rhanbarthol neu fel rhan o drefniadau hyfforddi mewnol ysgolion. O ganlyniad, nid yw'r wybodaeth a'r medrau gan bob athro i'w helpu i gyflwyno addysg ariannol yn hyderus.
- 9 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio ystod o adnoddau defnyddiol, gan gynnwys gwefannau a llwyfannau dysgu digidol, i ddod o hyd i adnoddau addas ar gyfer addysg ariannol. Mae ymwybyddiaeth a hyder athrawon i ddefnyddio adnoddau addysg ariannol, gan gynnwys deunydd dwyieithog, o HwB, yn amrywio gryn dipyn o fewn ysgolion ac ar draws ysgolion.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

- A1 Cynllunio a darparu cyfleoedd ystyrion i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau ariannol ar draws y cwricwlwm
- A2 Monitro ac arfarnu ansawdd y dysgu a'r addysgu ar gyfer addysg ariannol
- A3 Darparu hyfforddiant priodol i staff er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ariannol

Dylai Awdurdodau Lleol / Consortia:

- A4 Hwyluso trefniadau effeithiol i ysgolion rannu arfer dda ac adnoddau ar gyfer addysg ariannol
- A5 Adolygu'u rhaglenni hyfforddi ar gyfer rhifedd i sicrhau eu bod yn galluogi athrawon i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o addysg ariannol

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A6 Adolygu a hyrwyddo'i deunydd arweiniad ar gyfer cyflwyno addysg ariannol yn effeithiol, i gynnwys cronfa ddata o adnoddau a sefydliadau defnyddiol i ysgolion
- A7 Cefnogi datblygu adnoddau addysg ariannol ddigidol dwyieithog
- A8 Sicrhau bod addysg ariannol wedi'i chynnwys wrth ddatblygu'r maes dysgu a phrofiad newydd ar gyfer iechyd a lles, yn ogystal â mathemateg a rhifedd

Profiadau dysgu

- 10 Yn 2011, canfu Estyn fod y rhan fwyaf o ysgolion yn cyflwyno addysg ariannol drwy weithgareddau addysg bersonol a chymdeithasol yn hytrach nag mewn mathemateg neu ar draws ystod ehangach o bynciau'r cwricwlwm. Mae cyflwyno'r elfen 'rheoli arian' yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh; Llywodraeth Cymru, 2014) a rhaglenni astudio diwygiedig ar gyfer mathemateg (Llywodraeth Cymru, 2015b) wedi helpu'r rhan fwyaf o ysgolion i nodi cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau ariannol mewn gwersi mathemateg a phynciau eraill. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion cynradd a'r mwyafrif o ysgolion uwchradd, nid yw cynlluniau cwricwlwm ysgol gyfan yn galluogi disgyblion i ddatblygu'u dealltwriaeth a'u medrau ariannol fel arfer wrth iddynt symud drwy'r ysgol.
- 11 Yn y mwyafrif o ysgolion cynradd lle mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ariannol yn dda, gwna athrawon ddefnydd effeithiol o'r elfen 'rheoli arian' yn y FfLIRh a'r rhaglenni astudio diwygiedig ar gyfer mathemateg, i gynllunio datblygu galluoedd ariannol disgyblion. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau addas sy'n cyfateb i oedran a gallu disgyblion ac yn eu herio i ddatblygu a chymhwyso'u medrau ariannol mewn cyd-destunau gwahanol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mewn gwersi daearyddiaeth, pan fydd disgyblion yn cymharu gwahanol wefannau i gynllunio gwyliau, maent yn datblygu dealltwriaeth ynglŷn â chyllideb, elw a cholled, a gwerth gorau.
- 12 Mae ysgolion uwchradd sy'n datblygu medrau ariannol disgyblion yn effeithiol yn cynnig darpariaeth gytbwys o fewn eu gwersi mathemateg, addysg bersonol a chymdeithasol a meysydd perthnasol eraill o'r cwricwlwm. Mae'r ysgolion hyn yn datblygu gweithgareddau ac adnoddau addysg bersonol a chymdeithasol defnyddiol i hyrwyddo ymwybyddiaeth ariannol disgyblion yn ogystal â'u medrau ariannol. Maent hefyd yn datblygu cynlluniau manwl i sicrhau eu bod yn cyflwyno elfen 'rheoli arian' y cwricwlwm mathemateg yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 ar draws y cwricwlwm yn ogystal ag mewn gwersi mathemateg. Er enghraifft, mewn un ysgol, fe wnaeth pennaeth yr adran fathemateg, gyda chefnogaeth y cydlynnydd rhifedd, arwain adolygiad o'r holl gynlluniau gwaith pwnc i sicrhau eu bod yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso a chryfhau'u medrau ariannol mewn ystod o gyd-destunau ystyrlon. Mae'r ysgol hon yn archwilio'i chwricwlwm yn flynyddol i sicrhau parhad a dilyniant yng ngwybodaeth, medrau a dealltwriaeth disgyblion.
- 13 Mae ychydig o ysgolion uwchradd yn galluogi disgyblion ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 i ennill cymhwyster addysg ariannol achrededig ar lefel 2. Mae ennill y cymhwyster hwn yn helpu darparu medrau bywyd ymarferol i ddisgyblion reoli a deall eu cyllid a phenderfyniadau ynghylch arian. Mae mwyafrif yr ysgolion uwchradd yn darparu cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion ddatblygu'u galluoedd ariannol trwy Gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mewn un ysgol, mae athrawon yn defnyddio amser cofrestru'r chweched dosbarth a diwrnodau 'thematig' i ddatblygu galluoedd ariannol disgyblion, gan gynnwys eu gwybodaeth am bensiynau a chyfraniadau yswiriant gwladol.

- 14 Mae llawer o ysgolion yn cynllunio wythnosau menter i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau ariannol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion cynradd a'r mwyafrif o ysgolion uwchradd, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu'u dealltwriaeth a'u medrau ariannol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mewn un ysgol, mae athrawon yn cynllunio ar gyfer disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn i ddatblygu'u medrau ariannol mewn dwy wythnos thematig bob blwyddyn. Cynhwysir y gweithgareddau hyn yng nghynlluniau cwricwlwm cyffredinol yr ysgol ac fe'u croesgyfeirir i'r FfLIRh i sicrhau bod disgyblion yn datblygu'u medrau wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn cynllunio'r wythnosau thematig hyn yn ddigon trylwyr ac, o ganlyniad, maent yn colli cyfleoedd i ddatblygu a herio galluoedd ariannol disgyblion.

Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

- 15 Yn y mwyafrif o ysgolion, ceir arweinydd canol neu uwch arweinydd sy'n gyfrifol am addysg ariannol. Yn y lle cyntaf, roedd arweinwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu adnoddau a darparu hyfforddiant i staff. Wrth i'r rôl ddatblygu, fodd bynnag, maent yn ymwneud fwyfwy â datblygu a chydlynu cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer yr agwedd hon ar y ddarpariaeth.
- 16 Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli addysg ariannol wedi newid mewn lleiafrif o ysgolion i ymateb i'r newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm. Er enghraifft, mewn un ysgol gynradd, mae arweinwyr wedi trefnu timau i ddatblygu meysydd dysgu yn hytrach na phynciau ar wahân. Mae hyn wedi galluogi athrawon sydd â chyfrifoldeb am fathemateg, rhifedd ac iechyd a lles i ddatblygu cyfleoedd wedi'u cydlynu i rieni a disgyblion weithio gyda'i gilydd i wella eu medrau rhifedd a'u medrau ariannol.
- 17 Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, mae'r cydlynnydd rhifedd neu fathemateg yn gyfrifol am sicrhau bod athrawon yn cyflwyno'r rhaglenni astudio mathemateg diwygiedig yn effeithiol, gan gynnwys yr elfen 'rheoli arian' yn ymwneud ag addysg ariannol. Mewn un ysgol gynradd, fe wnaeth ddau arweinydd sydd â chyfrifoldeb am reoli mathemateg yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 weithio'n dda gydag arweinwyr pwnc eraill i gynllunio cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau rhifedd a'u medrau ariannol. Mae'r arweinwyr mathemateg yn archwilio'r cwricwlwm i sicrhau bod disgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd a'u medrau ariannol ar lefel sy'n briodol i'w hoedran.
- 18 Mewn ysgolion uwchradd, mae'r cyfrifoldeb am arwain a chydlynu addysg ariannol yn amrywio. Fel arfer, pennaeth yr adran mathemateg neu'r cydlynnydd rhifedd sy'n gyfrifol am yr agwedd hon ar y cwricwlwm, yn unigol neu gyda'i gilydd. Mewn ychydig o ysgolion, maent yn rhannu'r cyfrifoldeb hwn gyda'r cydlynnydd addysg bersonol a chymdeithasol neu Gymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae ysgolion uwchradd sy'n datblygu addysg ariannol yn llwyddiannus yn hyrwyddo cyfleoedd i arweinwyr weithio'n uniongyrchol ag athrawon eraill i'w cefnogi wrth gyflwyno'r maes hwn o'r cwricwlwm. Mewn un ysgol, er enghraifft, mae'r uwch dîm arwain yn galluogi arweinwyr mathemateg a rhifedd i gynorthwyo arweinwyr pwnc eraill i adolygu a diwygio cynlluniau gwaith a datblygu adnoddau i wella medrau rhifedd a medrau ariannol disgyblion. Maent yn monitro cynnydd y gwaith hwn yn fanwl iawn i sicrhau bod y ddarpariaeth hon yn datblygu'n gyflym.
- 19 Mae uwch arweinwyr yn ystyried bod gwerth i addysg ariannol fel elfen bwysig o ddatblygu medrau bywyd disgyblion, ond dim ond ychydig ohonynt sy'n ymwybodol o Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru a'r ddogfen arweiniad, 'Addysg ariannol i ddysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru (2011a)'. O ganlyniad, er bod arweinwyr yn y mwyafrif o ysgolion yn sicrhau bod 'elfen 'rheoli arian' y rhaglenni astudio mathemateg ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno'n briodol, mae lleiafrif yn colli cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o gyllid o fewn y cwricwlwm ehangach, yn enwedig mewn addysg bersonol a chymdeithasol ac mewn gyrfaedd a'r byd gwaith.

- 20 Mae ychydig o ysgolion, mewn ardaloedd lle ceir lefelau uchel o amddifadedd fel arfer, yn datblygu addysg ariannol fel blaenoriaeth o ran gwella'r ysgol. Mae'r ysgolion hyn naill ai wedi nodi bod gwendidau penodol yng ngwybodaeth a medrau ariannol disgyblion neu maent wedi ymateb i angen yn eu cymuned i gynorthwyo rhieni i wella ymwybyddiaeth ariannol eu plant. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr wedi darparu hyfforddiant defnyddiol i alluogi athrawon i ddatblygu darpariaeth addysg ariannol dda i ddisgyblion a rhieni. Mae llawer o ysgolion yn wynebu heriau i gyflawni a chynnal gwelliannau wrth gyflwyno addysg ariannol. Mae hyn yn deillio'n bennaf o'r galw cynyddol am amser cwricwlwm a blaenoriaethau cystadleuol o ran gwella'r ysgol.

Gwella ansawdd

- 21 Mae mwyafrif o ysgolion cynradd a lleiafrif o ysgolion uwchradd yn monitro ac yn arfarnu safonau a darpariaeth mewn rhifedd yn effeithiol, ond ychydig iawn o arweinwyr sy'n canolbwyntio'r arfarnu ar addysg ariannol yn benodol. Er bod yr ysgolion hyn yn defnyddio ystod o wybodaeth a gasglwyd o graffu ar lyfrau disgyblion, cynlluniau athrawon, ac arsylwadau o wersi i arfarnu medrau rhifedd disgyblion, dim ond ychydig iawn o ysgolion sy'n arfarnu galluoedd ariannol disgyblion. Er enghraifft, dynododd adolygiad un ysgol gynradd o lyfrau dysgwyr fod angen darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymarfer eu medrau ariannol ar draws y cwricwlwm, yn ychwanegol at 'wythnosau arian' thematig yr oeddent wedi'u trefnu.
- 22 Mae tua hanner o ysgolion yn dadansoddi data perfformiad i nodi cryfderau a gwendidau ym medrau rhifedd disgyblion. Fel arfer, mae'r dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar ganlyniadau profion rhifedd cenedlaethol. Defnyddir y data hwn gan ysgolion da i nodi disgyblion a fyddai'n elwa o gael cymorth ychwanegol gydag agweddau ar rifedd, gan gynnwys eu gallu i reoli arian. Mae'r wybodaeth hon yn helpu ysgolion i nodi cryfderau a gwendidau yn eu cynllunio ar gyfer addysg ariannol. Fodd bynnag, nid oes digon o ysgolion yn addasu'u cwricwlwm i fynd i'r afael â diffygion ym medrau a dealltwriaeth ariannol disgyblion.
- 23 Mae llawer o ysgolion yn gwrandao ar farnau disgyblion a geir drwy gynghorau ysgol, cynghorau blwyddyn a fforymau eraill. Mewn ychydig o ysgolion, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, fel teithiau dysgu, i arfarnu ansawdd y ddarpariaeth. Fodd bynnag, dim ond mewn ychydig iawn o ysgolion y mae disgyblion wedi arfarnu darpariaeth gyffredinol ar gyfer addysg ariannol. Caiff disgyblion eu hannog yn fwy cyffredin i ddarparu adborth am weithgareddau sy'n hyrwyddo'u datblygiad personol a chymdeithasol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys ysgol uwchradd lle ymatebodd athrawon i geisiadau gan ddisgyblion i ddarparu mwy o weithgareddau bywyd go iawn i ddatblygu'u dealltwriaeth ariannol yn ystod wythnosau thematig. Mae disgyblion mewn un ysgol gynradd yn hysbysu staff ynglŷn â'r gweithgareddau ariannol y byddent yn hoffi'u trefnu yn ystod eu clwb cynilion wythnosol. Maent yn dysgu am arian cyfredol gwahanol ac yn mwynhau gweithgareddau a gemau sy'n datblygu'u medrau o ran defnyddio arian.
- 24 Mewn ychydig iawn o ysgolion cynradd, mae cyfathrebu effeithiol wedi annog rhieni i ofyn am gymorth i wella eu gwybodaeth a'u medrau ariannol nhw eu hunain a'u plentyn. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ysgolion yn cynnwys rhieni mewn clybiau

cynilion, yn gwahodd asiantaethau cymorth ariannol i siarad â rhieni, neu'n darparu dosbarthiadau i wella medrau rhifedd a medrau ariannol rhieni. Nid yw pob ysgol yn ymwybodol o'r asiantaethau arbenigol neu'r undebau credyd lleol sy'n gallu cynorthwyo disgyblion a rhieni i ddatblygu'u llythrennedd ariannol.

Gweithio mewn partneriaeth

Busnesau lleol, sefydliadau ariannol, elusennau ac undebau credyd

- 25 Nid yw gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion a sefydliadau ariannol wedi cynyddu'n sylweddol ers ein harolwg diwethaf yn 2010. Mae lleiafrif o ysgolion yn elwa ar bartneriaethau defnyddiol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu lleol. Er bod y sefydliadau hyn yn darparu cymorth buddiol, er enghraifft, gyda gweithgareddau codi arian neu helpu i wella amgylchedd ffisegol yr ysgol, dim ond ychydig sy'n canolbwyntio ar gynorthwyo disgyblion i ddatblygu'u galluoedd ariannol.
- 26 Mae tystiolaeth o arolygiadau diweddar yn awgrymu bod cynnydd bach iawn yn nifer yr ysgolion sydd wedi datblygu partneriaethau defnyddiol gyda sefydliadau ariannol, gan gynnwys undebau credyd. Mae'r cynnydd hwn yn fwy amlwg mewn ysgolion cynradd. Yn sgil y partneriaethau hyn, ceir cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu'u dealltwriaeth o gyllidebu a chyfrifon banc. Mewn un ysgol gynradd, mae tua hanner yr holl ddisgyblion yn mynychu clwb cynilion wythnosol, a gefnogir yn effeithiol gan undeb credyd lleol. Yn y clwb hwn, mae disgyblion yn bancio'u cynilion ac yn cadw golwg arnynt, ac yn cyfranogi mewn gweithgareddau sy'n datblygu'u medrau ariannol a'u medrau rhifedd. Mae'r bartneriaeth hon rhwng yr ysgol ac undeb credyd wedi rhannu a datblygu'r trefniant hwn yn llwyddiannus gydag ysgolion cynradd eraill yn yr ardal.
- 27 Er gwaetha'r buddion i ddatblygu ymwybyddiaeth a medrau ariannol disgyblion, dim ond ychydig o ysgolion cynradd ac ychydig iawn o ysgolion uwchradd sydd wedi sefydlu partneriaeth gyda sefydliad ariannol lleol. Mae llwyddiant y bartneriaeth hon yn dibynnu i raddau helaeth ar gymorth uwch arweinwyr ac ymrwymiad staff i sicrhau a chynnal y trefniant hwn. Mewn un ysgol gynradd, er enghraifft, mae undeb credyd wedi hyfforddi rhieni yn ogystal â staff i gyflwyno a chynnal rhaglen gymorth allgyrsiol i ddisgyblion.
- 28 Mae mwyafrif o ysgolion yn parhau i ddatblygu cysylltiadau buddiol gyda busnesau lleol i gefnogi gweithgareddau menter disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, mewn un ysgol uwchradd, mae darparwr cyfleustod lleol yn darparu cefnogaeth gref i brosiect busnes a chymuned, sy'n datblygu ystod o fedrau ariannol disgyblion wrth baratoi ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae llawer o ysgolion yn ei chael hi'n heriol cynnal partneriaethau o'r fath gan fod gallu sefydliadau ariannol i ddarparu cymorth i'w hysgolion lleol yn amrywio gryn dipyn ar hyd a lled Cymru, ac nid yw llawer o ysgolion yn gwybod am eu hundeb credyd lleol. O ganlyniad, mae ysgolion a sefydliadau ariannol yn colli cyfleoedd gwerthfawr i wella profiadau dysgu a medrau ariannol y disgyblion yn eu cymunedau.
- 29 Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn cyfranogi mewn cynllunio a threfnu digwyddiadau codi arian buddiol ar gyfer ystod eang o sefydliadau elusennol. Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu amrywiaeth o fedrau ariannol ac i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r modd y gallant ddefnyddio arian yn effeithiol i helpu'r rheini sy'n agored i niwed neu'n ddifreintiedig.

Rhieni

- 30 Mae ychydig o ysgolion yn datblygu partneriaethau defnyddiol i ddatblygu dealltwriaeth a medrau ariannol rhieni yn ogystal â disgyblion. Yn aml, mae'r trefniadau hyn yn bodoli mewn ysgolion sy'n ymateb yn sensitif ac yn ymarferol i geisiadau gan rieni am gymorth gydag addysg ariannol. Mae un ysgol gynradd, er enghraifft, yn darparu dosbarthiadau rhifedd a chyllid i'w rhieni tra bod ysgol arall yn gwahodd nifer o asiantaethau i ddarparu cyngor ariannol i rieni mewn boreau coffi wythnosol. Mae'r trefniadau hyn yn helpu datblygu gwybodaeth a medrau ariannol rhieni fel eu bod hwythau yn eu tro yn gallu cefnogi datblygiad galluoedd ariannol eu plant yn well.

Rheoli adnoddau

Datblygiad staff

- 31 Fe wnaeth rhan fwyaf yr ysgolion a gyfranogodd yn yr arolwg blaenorol a'r arolwg presennol fynychu hyfforddiant a ddarparwyd gan Uned Addysg Ariannol Cymru rhwng 2011 a 2013. Roedd yr hyfforddiant hwn yn effeithiol o ran rhannu arfer dda ac adnoddau a gynorthwyodd yr ysgolion hyn i ddatblygu darpariaeth dda ar gyfer addysg ariannol. Fodd bynnag, yn fwy diweddar, nid yw hyfforddiant o ansawdd uchel mewn addysg ariannol wedi bod ar gael mor eang i ysgolion. Ychydig iawn o ysgolion sy'n darparu hyfforddiant mewnol penodol ar gyfer addysg ariannol. O ganlyniad, nid yw'r wybodaeth a'r medrau gan bob athro i gyflwyno'r agwedd hon ar y cwricwlwm yn hyderus.
- 32 Mae gallu athrawon i gyflwyno'r agwedd hon ar y cwricwlwm yn hyderus yn amrywio o fewn yr ysgolion ac ar draws yr ysgolion a gyfranogodd yn yr arolwg hwn. Mae hon yn her arbennig i ysgolion uwchradd lle mae'n ofynnol i athrawon heb gymwysterau neu hyfforddiant arbenigol mewn mathemateg ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso medrau ariannol lefel uwch mewn gwersi. Mae ysgolion sy'n ymateb yn llwyddiannus i'r her hon yn darparu trefniadau cymorth cadarn, sy'n galluogi athrawon i ddatblygu'r cwricwlwm ariannol a'u gwybodaeth bynciol ar y cyd.
- 33 Mae llawer o ysgolion a dderbyniodd hyfforddiant gan Uned Addysg Ariannol Cymru wedi parhau i ddatblygu gwybodaeth bynciol athrawon drwy eu trefniadau mewnol eu hunain ar gyfer datblygiad proffesiynol a datblygu'r cwricwlwm. Mae llawer o ysgolion yn mynychu ac yn darparu hyfforddiant buddiol mewn rhifedd i gefnogi gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r rhaglen astudio mathemateg newydd. Mae hwn yn ddull cyffredin mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac mae'n helpu athrawon i nodi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau rhifedd, gan gynnwys rheoli arian a chyllid.
- 34 Cyflwynwyd strategaeth effeithiol gan un ysgol uwchradd i wella gwybodaeth bynciol athrawon nad ydynt yn arbenigwyr mathemateg na rhifedd. Mae athrawon o'r adran fathemateg yn darparu cymorth cymheiriaid i athrawon o adrannau eraill. Maent yn cynnig cyngor defnyddiol i wella gwybodaeth bynciol a hyder eu cydweithwyr i gyflwyno gweithgareddau sy'n cynnwys rhifedd ac addysg ariannol lefel uwch. O ganlyniad, mae'r athrawon hyn yn cynllunio gweithgareddau ariannol ac yn datblygu adnoddau sy'n cyfateb i alluoedd mathemategol eu disgyblion.
- 35 Ers yr arolwg blaenorol, mae mwy o ysgolion yn cydweithio i ddatblygu ymagweddau at rifedd. Fodd bynnag, ychydig iawn o'r partneriaethau hyn sy'n canolbwyntio ar addysg ariannol. Mae'r mwyafrif o ysgolion uwchradd wedi datblygu cysylltiadau cwricwlwm buddiol gydag ysgolion cynradd. Nod llawer o'r rhain yw datblygu dull cyson o ddatblygu medrau rhifedd disgyblion, ond ychydig iawn o ffocws sydd ar wella galluoedd ariannol disgyblion yn benodol.

Adnoddau

- 36 Mae adnoddau defnyddiol i gyflwyno addysg ariannol yn Saesneg ar gael i ysgolion. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio ystod o wefannau i wella profiadau dysgu disgyblion neu i ddarparu profiadau mwy rhyngweithiol i ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn datblygu adnoddau pwrpasol hefyd i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau ariannol eu disgyblion. Yn yr arfer orau, mae arweinwyr sy'n gyfrifol am rifedd yn arfarnu'r adnoddau hyn i sicrhau eu bod yn cyfateb i alluoedd disgyblion mewn mathemateg.
- 37 Mae bron pob ysgol yn ymwybodol fod HwB, sef llwyfan dysgu digidol Llywodraeth Cymru, yn darparu adnoddau defnyddiol i gefnogi cyflwyno addysg ariannol. Mae'r holl adnoddau hyn ar gael yn Gymraeg. Mewn ysgolion sydd wedi darparu hyfforddiant a chymorth defnyddiol i ddefnyddio HwB, mae athrawon yn defnyddio adnoddau dwyieithog addas i gefnogi datblygu cynlluniau gwaith a gweithgareddau priodol ar gyfer disgyblion er mwyn datblygu a chymhwyso'u medrau ariannol. Fodd bynnag, dim ond tua hanner yr ysgolion sydd wedi darparu digon o hyfforddiant neu amser i'w staff i fod yn ddigon cyfarwydd neu hyderus i ddefnyddio'r sylfaen adnoddau helaeth hon. O ganlyniad, nid yw pob athro yn gwbl ymwybodol o'r adnoddau dwyieithog sydd ar gael i'w cefnogi wrth iddynt gynllunio a chyflwyno addysg ariannol.

Atodiad: Sail y dystiolaeth

Mae canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad hwn yn defnyddio dadansoddiad o ganfyddiadau arolygu, cyfweiliadau ffôn ag ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr adroddiad cylch gwaith blaenorol, neu ysgolion ag arfer dda mewn addysg ariannol, ac arolygon ar-lein o ysgolion a chynrychiolwyr consortia rhanbarthol. Mae'r sampl yn defnyddio gwybodaeth gan bob un o'r pedwar consortiwm rhanbarthol ac yn ystyried cefndir economaidd-gymdeithasol, maint ysgol a chyd-destunau ieithyddol. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried ymchwil gyfredol, cyhoeddiadau arweiniad gan Lywodraeth Cymru ac astudiaethau achos arfer dda Estyn.

Dyma'r ysgolion a gyfranogodd yn yr arolwg ffôn:

- Ysgol Uwchradd Gatholig yr Esgob Hedley, Merthyr Tudful
- Ysgol Gynradd Coed-duon, Caerffili
- Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd
- Ysgol Gynradd Kymin View, Trefynwy
- Ysgol Gyfun Pontarddulais, Abertawe
- Ysgol Gynradd Rhymni, Caerdydd
- Ysgol Gynradd Ton-yr-Ywen, Caerdydd
- Ysgol Golwg y Cwm, Powys
- Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Caerdydd

Astudiaethau achos 'arfer orau' Estyn (gweler Estyn, 2011 am fanylion):

- ['Mae datblygu medrau ariannol disgyblion yn gwneud synnwyr economaidd'](#), Ysgol Uwchradd Gatholig yr Esgob Hedley, Merthyr Tudful
- ['Materion ariannol'](#), Ysgol Gynradd Penbre, Sir Gaerfyrddin
- ['Entrepreneuriaid ifanc mewn Ysgol Gynradd yn Ne Cymru'](#), Ysgol Gynradd Coed-duon, Caerffili
- ['Meithrin partneriaethau â theuluoedd'](#), Ysgol Maesglas, Sir y Fflint

Geirfa

Addysg ariannol	Y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau ariannol sydd eu hangen ar ddisgyblion i fod yn ariannol-alluog
FfLIRh	<i>Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd</i> Llywodraeth Cymru
HwB	Llwyfan dysgu digidol a lanswyd gan Lywodraeth Cymru i sefydliadau addysg i ddisgyblion 3 i 19 oed yng Nghymru
Llwyfan dysgu digidol	Amgylchedd dysgu rhithwir ar-lein ar gyfer yr agweddau digidol ar gyrsiau astudio, yn enwedig mewn sefydliadau addysgol
Prosiect menter	Prosiect i ddatblygu medrau entrepreneuriaidd disgyblion
Wythnos thematig	Cyfnod pan fydd ysgol yn atal ei hamserlen er mwyn i grŵp o ddisgyblion gyfranogi mewn gweithgareddau allgyrsiol sy'n datblygu ac yn cymhwyso'u gwybodaeth a'u medrau mewn pwnc penodol neu agwedd benodol ar y cwricwlwm

Niferoedd – meintiau a chyfrannau

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Cyfeiriadau

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf> [Darllenwyd 13 Chwefror 2017]

Estyn (2011) *Materion ariannol: darpariaeth addysg ariannol i bobl ifanc rhwng saith ac 19 mlwydd oed mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Materion%20Ariannol%3A%20%20darpariaeth%20addysg%20ariannol%20i%20bobl%20ifanc%20rhwng%207%20ac%2019%20mlwydd%20oed%20mewn%20ysgolion%20cynradd%20ac%20uwchradd%20yng%20Nghymru%20-%20Mehefin%202011.pdf> [Darllenwyd 13 Chwefror 2017]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008a) *Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130722-careers-world-of-work-cy.pdf> [Darllenwyd 13 Chwefror 2017]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008b) *Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer dysgwyr saith i 19 oed yng Nghymru*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130425-personal-and-social-education-framework-cy.pdf> [Darllenwyd 13 Chwefror 2017]

Llywodraeth Cymru (2011) *Addysg ariannol i ddysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru: Canllawiau i ysgolion a cholegau. 059/2011*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/111028financial7-19cy.pdf> [Darllenwyd 6 June 2017]

Llywodraeth Cymru (2011b) *Adolygiad o Uned Addysg Ariannol Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://gov.wales/docs/caecd/research/110721-welsh-financial-education-unit-cy.pdf> [Darllenwyd 13 Chwefror 2017]

Llywodraeth Cymru (2014) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/nlnf/?lang=cy> [Darllenwyd 13 Chwefror 2017]

Llywodraeth Cymru (2015a) *Cwricwlwm Cymru: Fframwaith y Cyfnod Sylfaen*. Caerdydd. Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150803-fp-framework-cy.pdf> [Darllenwyd 13 Chwefror 2017]

Llywodraeth Cymru (2015b) *Cwricwlwm i Gymru: Rhaglen Astudio ar gyfer Mathemateg Cyfnodau Allweddol 2-4*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150717-nc-maths-cy-v2.pdf> [Darllenwyd 13 Chwefror 2017]

Llywodraeth Cymru (2016a) *Strategaeth Cynhwysiant Ariannol i Gymru 2016*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://gov.wales/docs/dsijg/publications/comm/160316-financial-inclusion-strategy-2016-cy.pdf> [Darllenwyd 13 Chwefror 2017]

Llywodraeth Cymru (2016b) *Cynllun Cyflenwi Cynhwysiant Ariannol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://gov.wales/docs/dsijg/publications/comm/161214-delivery-plan-cy.pdf> [Darllenwyd 13 Chwefror 2017]

Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (2015a) *TGAU mewn Mathemateg (o 2015)*. Caerdydd: Cyd-bwyllgor Addysg Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: [http://www.cbac.co.uk/qualifications/mathematics/r-mathematics-gcse-2015/CBAC%20TGAU%20Mathemateg%20Manyleb%202015%20\(From%202015%20-%20WALES%20ONLY\)%20\(28-10-14\).pdf?language_id=2](http://www.cbac.co.uk/qualifications/mathematics/r-mathematics-gcse-2015/CBAC%20TGAU%20Mathemateg%20Manyleb%202015%20(From%202015%20-%20WALES%20ONLY)%20(28-10-14).pdf?language_id=2) [Darllenwyd 13 Chwefror 2017]

Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (2015b) *TGAU Mathemateg - Rhifedd*. Caerdydd: Cyd-bwyllgor Addysg Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: [http://www.wjec.co.uk/qualifications/mathematics/r-mathematics-gcse-2015/WJEC%20GCSE%20Maths%20-%20Numeracy%20Specification%20\(From%202015%20WALES%20ONLY\)%20\(28-10-14\).pdf?language_id=1](http://www.wjec.co.uk/qualifications/mathematics/r-mathematics-gcse-2015/WJEC%20GCSE%20Maths%20-%20Numeracy%20Specification%20(From%202015%20WALES%20ONLY)%20(28-10-14).pdf?language_id=1) [Darllenwyd 13 Chwefror 2017] (Saesneg yn unig)

Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (2015c) *Bagloriaeth Cymru o 2015*. Caerdydd: Cyd-bwyllgor Addysg Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.cbac.co.uk/qualifications/welsh-baccalaureate/welsh-bacc-from-2015/?language_id=2 [Darllenwyd 13 Chwefror 2017]